| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli** |
| **DYDDIAD** | **18 Hydref 2022** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli a Gweithredol yr Harbwr** |
| **AWDUR(ON)** | **Rheolwr Masnachol a Is-Rheolwr Hafan a Harbwr Pwllheli** |

**Cyflwyniad**

Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Pwllheli.

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod a ddaw i ben ar ddiwedd mis Medi 2023, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

Mae Pwyllgor Harbwr Pwllheli yn Bwyllgor Harbwr anstatudol, a sefydlwyd yn unol â chymeradwyaeth a chefnogaeth y Cyngor. Mae'r caniatâd yn darparu bod pymtheg (15) aelod yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli. Ceir rhestr gynhwysfawr o'r grwpiau a'r sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y pwyllgor Harbwr yn y rhaglen.

Yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor bydd hi'n ofynnol i'r cynrychiolwyr o bob grŵp a sefydliad ddarparu tystiolaeth o'u cyfansoddiad i'r Cyngor ynghyd â llythyr o'u sefydliad yn cadarnhau enw eu cynrychiolydd.  Nid yw'r uchod yn berthnasol i Gyngor Tref neu Gymuned.

**1.1 Côd Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

Mae'r Côd Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Côd yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Côd Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, er mwyn iddo gael ei adolygu a'i fod yn berthnasol i weithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Pwllheli.

Yn dilyn etholiadau lleol mae arweinydd portffolio cabinet Cyngor Gwynedd wedi newid. Hoffwn ddiolch i'r Cynghorydd Gareth Thomas am ei waith fel 'Deilydd Dyletswydd' ynghlwm a'r Côd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Cynghorydd Nia Jeffreys yn cymryd drosodd y rôl, ac mae swyddogion y Cyngor yn dechrau ar y broses o anwytho y Cynghorydd i'r swydd. Yn ychwanegol mae swyddogion y Cyngor yn adolygu y côd fel mater o rheidrwydd.

**1.2 Carthu'r Sianel**

Cafodd ymgyrch carthu ceg yr harbwr ei wneud yn mis Mai y flwyddyn yma, gan adrodd fod y contractwyr wedi neud gwaith eithaf da, gyda'r sianel i gyd yn is na -3mOD (-0.56mCD) ac dros 21,000m3 o ddeunydd wedi ei dynnu allan o'r sianel o fewn llai na 10 diwrnod.

Bydd ymgyrch arall yn gael ei wneud eto yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Mae'r Lagŵn Ddistyllu yn llawn ac felly mae dulliau gwahanol o waredu silt yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Ni ellir cwblhau rhagor o waith carthu gan ddefnyddio'r Lagŵn Ddistyllu nes i ateb hyfyw gael ei adnabod.

Mae trafodaethau yn mynd ymlaen rhwng swyddogion y Hafan a YGC a’r rhaglen tymor byr a hir, gyda nifer o sialensiau wedi ei nodi. Mae yna adolygiad yn cael ei wneud ar strategaeth carthu cafwyd ei cydnabod, dan ystyried fod pwysau ar lleoli/gwaredu y llaid.

Rhagwelir fydd basn y marina yn cael ei garthu yn chwarter 4 o flwyddyn ariannol 2023/2024.

**1.3 Materion Ariannol.**

Cyflwynir crynodeb bras o gyllideb yr Harbwr Allanol a Marina'r Hafan, a'r sefyllfa ariannol bresennol i'r aelodau yn y cyfarfod.

Yn ystod cyfnod yr Gwanwyn a’r Haf, roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol i’r meysydd a ganlyn o waith: -

- Injan a gêr bocs newydd ar gyfer cwch yr Harbwr
- Pwmp newydd i’r cei tanwydd
- Bont newydd i’r cei tanwydd
- Cynnal a chadw’r cyfleusterau - toiledau a chawodydd
- Lloches ychwanegol newydd i feiciau yn dilyn llwyddiant gosod y lloches gyntaf.
- TCC ar y llithrfa
- Ad-ennill meddiant o tir gan masnachwr a dyled i’r Cyngor. Y tir i’w ddefnyddio gan y Hafan ar gyfer cwsmeriaid y Hafan e.e. cadw trelars
- Carthu'r Harbwr

**1.4 Ffioedd a Thaliadau 2023/24**

O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Hafan a Harbwr Pwllheli, ynghyd â ffioedd lansio ar gyfer Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol ar gyfer tymor 2023/2024, mae'r gwasanaeth yn bwriadu addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant. Ar hyn o bryd, nid yw'r Gwasanaeth wedi derbyn cadarnhad o'r cyfraddau y dylai eu gweithredu.

**1.5 Eitemau Gweithredol**

***Mordwyo*** - Mae'r holl Gymhorthion Mordwyo yn Harbwr Pwllheli yn gweithio ac yn eu lle. Nid oes unrhyw "Rybuddion i Forwyr" yn weithredol yn Harbwr Pwllheli ar hyn o bryd. Fy Tŷ’r Drindod yn cynnal archwiliad blynyddol goleuadau mordwyo a bwiau dechrau mis Hydref. Adroddiad ar gael yn fuan.

***Cei Tanwydd*** - Mae pwmp tanwydd newydd ar gyfer y cei wedi'i osod ynghyd a’r bont mynediad at y cei tanwydd. Mae swyddogion wedi derbyn pris, trwy proses, gan cwmni Walcon a fydd yn gosod pontŵn newydd ar y cei tanwydd. Mi oedd rhaid newid y cei tanwydd yn dilyn archwiliad gan fod erydiad y cei wedi dangos fod y posibilrwydd o’r cei dorri mewn storm drwg. Fydd y gwaith yn gael ei wneud yn fuan yn 2023.

***Llithrfa Hafan a Chofrestru Cychod Pŵer*** - Mae TCC wedi ei leoli ar llithrfa Hafan er mwyn monitro defnydd y llithrfa, sicrhau diogelwch holl defnyddwyr y llithrfa, tra yn sicrhau fod bob cwch sydd yn gael ei lansio wedi ei cofrestru. Bydd staff y Hafan yn edrych ar y ffordd orau o monitro defnydd y llithrfa i sicrhau fod pawb yn dilyn y drefn priodol, a’r drefn sydd wedi ei cytuno yn blaenorol yn gael ei ddilyn.

***Lleiniau Caled a man parcio Deiliaid Angorfeydd Blynyddol –*** Bu lwyddiant ar newid trefn storio cychod ar y lan. Mae wedi galluogi rhyddhau ardaloedd ychwanegol er mwyn cynyddu yr argaeledd i deiliad angorfeydd blynyddol.

Oherwydd y gwaith yma bu llwyddiant ar cynnig man parcio ychwanegol dros cyfnod brysur yr haf, a oedd wedi ei chroesawu gan nifer o’r cwsmeriaid.

***Ystadegau Harbwr/Hafan Blynyddol ac ati -*** Mae manylion ystadegau'r Hafan a'r Harbwr ar gyfer 2022 wedi'u cynnwys gyda'r adroddiad hwn. Mae'r nifer preswyl blynyddol wedi cynyddu'n fawr eleni,

ac mae'r Hafan yn llawn. Mae 100% o'r angorfeydd wedi'u cymryd gan breswylwyr blynyddol ac mae ymholiadau am angorfeydd ar gyfer 2023/4 yn hynod o gadarn, gyda dros 120 ar y rhestr aros.

Canran angorfeydd yn y Harbwr wedi gostwng oherwydd fod anghenion cwsmeriaid yn newid. Nifer wedi trosglwyddo i'r Hafan, tra rhai eraill e.e. masnachwyr (pysgotwyr) wedi rhoi gorau iddi.

***Staffio -*** Noder fod 2 swydd cymhorthydd tymhorol heb ei lenwi dros cyfnod yr haf, hyn yn dilyn 2 ymgyrch i llenwi y swyddi. Dim ceisiadau na neb yn dangos diddordeb. Mae swyddogion y Hafan wrthi yn cydweithio gyda Coleg Meirion Dwyfor, ac yn barod wedi derbyn ymweliad gan 8 myfyrwyr ifanc i'r Hafan, gyda'r gobaith fydd rhai a diddordeb gael swydd dros haf 2023.

Oherwydd prinder staff ni fu'n bosib i'r tîm cynnal y gwaith ychwanegol o rheoli defnydd dŵr y Hafan/Harbwr a'r traethau Glan don a Marian-y-De. Mi fydd y swyddogion yn cynnal trafodaethau gyda'r adran Morwrol sut i wella y sefyllfa erbyn haf 2023.

Mae y swydd Harbwr feistr Cynorthwyol, a fu yn wag ers Ebrill 2022 yn dilyn ymddeoliad Keith, gael ei lenwi, gyda Emma White yn symud o fod yn Bosun Cynorthwyol i'r swydd yma. Bu dechrau ar ei gwaith ar Hydref 1af. Rydym wedi ymestyn contract Tony Adams i weithio trwy'r gaeaf yn dilyn cyfnod llwyddiannus fel cymhorthydd harbwr dros yr haf.

Roedd hi'n amser trist pan fu Louise Holt ymadael a'r Hafan yn yr haf. Roedd hyn yn dilyn gwasanaeth o dros 30 mlynedd. Mawr oedd diolch y tîm a'r cwsmeriaid o'r gwaith fu iddi neud dros y blynyddoedd. Yn cymryd ei lle fydd Siobhan Hannah, a dechreuodd gyda ni yn y Hafan ar ddiwedd mis Medi. Dim yn wyneb anghyfarwydd achos bu iddi weithio yn y Hafan o 2000 i 2008.

Hoffai y tîm yn y Hafan ddiolch i Esyllt Jones, o'r adran Morwrol, am camu i'r bwlch yn dilyn Louise ein gadael ni i sicrhau fod y gwasanaeth gweinyddol/ariannol yn gael ei cyflawni heb rhwystr.

***Cynllun Strategol –*** Fel adroddwyd yn y pwyllgor blaenorol mae strwythur staffio y Hafan wedi newid, gyda'r Rheolwr Masnachol yn ei le ers mis Mehefin. Un o'r prif dasgau yw edrych ar cynllun strategol 'masterplan' ar gyfer ardal Hafan/Harbwr Pwllheli. Mae ceisiadau allan gyda ymgynghorwyr i gyd-weithio gyda swyddogion yr adran. Fu y Rheolwr Masnachol yn rhoi diweddariad yn y cyfarfod.